**Statws** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   C Y M R U

# 2026 Rhif 83

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Sir Benfro (Cymunedau) 2026

*Gwnaed - - - - 11 Mawrth 2026*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)*

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru(**1**) ("y Comisiwn"), o dan adran 36(5)(a) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013(**2**) ("Deddf 2013"), wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad dyddiedig Ionawr 2025 yn cynnwys ei argymhellion ar gyfer newid a manylion adolygiad o'r trefniadau cymunedol o fewn Sir Benfro.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i'r rhan fwyaf o argymhellion y Comisiwn heb addasiadau, ond i beidio â chymryd unrhyw gamau mewn perthynas â rhai argymhellion. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gwneud darpariaeth atodol fel yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus.

O dan adran 37(3) o Ddeddf 2013(**3**), mae mwy na 6 wythnos wedi mynd heibio ers i'r argymhellion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 37(1) a 40(1) a (2)(a) o Ddeddf 2013.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Benfro (Cymunedau) 2026.

---

(**1**) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) ("Deddf 2013") ac Atodlen 2 iddi. Gwnaeth Deddf 2013 ailenwi'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2(2)). Gwnaeth Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4) ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (gweler adran 12).

(**2**) 2013 dccc 4. Gwnaeth adran 11 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ailenwi enw byr Deddf 2013 yn Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

(**3**) Amnewidiwyd adran 37(3) gan adran 43(2) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5) ("Deddf 2024"). O dan adran 55 o Ddeddf 2024, mae adolygiad sy'n cael ei gynnal o dan Ran 3 o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013") ar adeg dod i rym Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf 2024 ar 9.11.24, i'w gwblhau fel pe na bai'r diwygiadau a wnaed gan Bennod 1 o Ran 2 o Ddeddf 2024 wedi eu gwneud. Felly, mae darpariaethau Rhan 3 o Ddeddf 2013 yn parhau i gael effaith at ddiben yr adolygiad a weithredir gan y Gorchymyn hwn fel yr oeddent yn cael effaith yn union cyn i'r diwygiadau a wnaed gan Ran 2 o Bennod 1 o Ddeddf 2024 ddod i rym.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o Reoliadau 1976, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mai 2026.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym am 23:59 o'r gloch ar y diwrnod cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2027(**4**).

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**5**);

ystyr "presennol" ("*existing*") yw cymuned neu ward gymunedol fel y mae'n bodoli yn union cyn yr amser a'r diwrnod a nodir yn erthygl 1(3);

ystyr "Rheoliadau 1976" ("*the 1976 Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**6**);

ystyr "ward etholiadol" ("*electoral ward*") yw unrhyw ardal yr etholir cynghorwyr drosti i Gyngor Sir Penfro;

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn golygu un o'r 57 o fapiau a farciwyd "Map ar gyfer Gorchymyn Sir Benfro (Cymunedau) 2026" a adneuwyd yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau 1976, a labelwyd "1" i "57", ac mae cyfeiriad at y map â rhif yn gyfeiriad at y map sy'n dwyn y rhif hwnnw;

pan ddangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

(2) Mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth wrthdrawiadol mewn unrhyw offeryn statudol blaenorol a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf 1972 neu orchymyn a wnaed o dan adrannau 37(1), 38(1) neu 39(1) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

### Llanhuadain, a Clunderwen — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**3.** Mae'r rhannau o gymuned Llanhuadain a ddangosir wedi eu graddliwio ar Fap 1 a Map 2—

(a) wedi eu trosglwyddo i gymuned Clunderwen;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Maenclochog.

### Llanhuadain, a Clunderwen — trefniadau etholiadol cymunedol

**4.** Yng nghymuned Llanhuadain, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 6.

**5.** Yng nghymuned Clunderwen, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 6.

---

(**4**) Gwnaeth Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1269 (Cy. 220)) ddiwygio adran 26(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) i ddarparu mai'r flwyddyn y mae rhaid i etholiadau cyffredin cynghorwyr awdurdodau lleol gael eu cynnal oedd 2022 yn hytrach na 2021. Diwygiwyd adran 26(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ymhellach gan adran 14(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) i ddarparu bod rhaid i etholiadau gael eu cynnal bob pumed flwyddyn ar ôl 2022.

(**5**) 1972 p. 70.

(**6**) O.S. 1976/246 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Mae adran 74(3) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013") yn darparu bod Rheoliadau 1976 yn parhau i gael effaith mewn perthynas â gorchmynion a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fel pe bai'r gorchmynion hynny wedi eu gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70).

### Pont Fadlen, Freystrop, a Hook — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**6.** Mae'r rhan o gymuned Pont Fadlen a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 4—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Freystrop;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangwm.

**7.** Mae'r rhan o gymuned Hook a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 3—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Freystrop;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangwm.

### Pont Fadlen, a Hook — trefniadau etholiadol cymunedol

**8.** Yng nghymuned Pont Fadlen, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 11.

**9.** Yng nghymuned Hook, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 6.

### Burton, a Rosemarket — newid i ffiniau cymunedau

**10.** Mae'r rhan o gymuned Burton a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 5—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Rosemarket;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Burton.

### Burton — trefniadau etholiadol cymunedol

**11.** Yng nghymuned Burton, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 9.

### Diddymu'r wardiau cymunedol yng nghymuned Tiers Cross

**12.** Mae'r wardiau cymunedol presennol a ganlyn o gymuned Tiers Cross wedi eu diddymu—

(a) Tiers Cross;

(b) Thornton.

### Camros — newid enw cymuned

**13.** Enw cymuned bresennol Camros, a elwid Camrose yn Saesneg, fydd Camros yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Castell Gwalchmai — newid enw cymuned

**14.** Enw cymuned bresennol Castell Gwalchmai, a elwid Walwyns Castle yn Saesneg, fydd Walwyn's Castle yn Saesneg ac erys yr enw Castell Gwalchmai yn Gymraeg.

### Hwlffordd — newid enwau wardiau cymunedol

**15.** Yng nghymuned Hwlffordd—

(a) enw ward bresennol Castell, a elwid Castle yn Saesneg, fydd Castell yn Gymraeg ac yn Saesneg;

(b) enw ward bresennol Priordy, a elwid Priory yn Saesneg, fydd Priordy yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Johnston, Tiers Cross, Castell Gwalchmai, Camros, a Hwlffordd — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**16.** Mae’r rhan o gymuned Johnston a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 9 a’i rhifo 1—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Tiers Cross;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanisan-yn-Rhos.

**17.** Mae’r rhan o gymuned Castell Gwalchmai a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 10—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Tiers Cross;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanisan-yn-Rhos.

**18.** Mae’r rhan o gymuned Camros a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 8—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Tiers Cross;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanisan-yn-Rhos.

**19.** Mae’r rhan o gymuned Tiers Cross a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 9 a’i rhifo 2—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Johnston;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Johnston.

**20.** Mae’r rhan o gymuned Tiers Cross a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 7—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Hwlffordd;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Priordy;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Hwlffordd: Y Priordy.

**21.** Mae’r rhan o ward Prendergast o gymuned Hwlffordd a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 6 a’i rhifo 1—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Castell o gymuned Hwlffordd;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Hwlffordd: Y Castell.

**22.** Mae’r rhan o ward Castell o gymuned Hwlffordd a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 6 a’i rhifo 2—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Prendergast o gymuned Hwlffordd;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Hwlffordd: Prendergast.

### Camros, Tiers Cross, a Johnston — trefniadau etholiadol cymunedol

**23.** Yng nghymuned Camros, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 11.

**24.** Yng nghymuned Tiers Cross, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 6.

**25.** Yng nghymuned Johnston, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 11.

### The Havens — newid enw cymuned

**26.** Enw cymuned bresennol The Havens fydd Yr Aberoedd yn Gymraeg ac erys yr enw The Havens yn Saesneg.

### Herbrandston, Aberdaugleddau, Castell Gwalchmai, ac Yr Aberoedd — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**27.** Mae'r rhan o gymuned Herbrandston a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 11 a'i rhifo 1—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Castell Gwalchmai;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanisan-yn-Rhos.

**28.** Mae'r rhan o ward Hubberston o gymuned Aberdaugleddau a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 11 a'i rhifo 2—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Castell Gwalchmai;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanisan-yn-Rhos.

**29.** Mae'r rhan o gymuned Castell Gwalchmai a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 13—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Yr Aberoedd;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Yr Aberoedd.

**30.** Mae'r rhan o ward Hubberston o gymuned Aberdaugleddau a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 12—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Herbrandston;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanisan-yn-Rhos.

**31.** Mae'r rhan o ward Hakin o gymuned Aberdaugleddau a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 14 a'i rhifo 2—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Hubberston o gymuned Aberdaugleddau;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aberdaugleddau: Hubberston.

**32.** Mae'r rhan o ward y Gorllewin o gymuned Aberdaugleddau a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 14 a'i rhifo 1—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Hubberston o gymuned Aberdaugleddau;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aberdaugleddau: Hubberston.

### Yr Aberoedd — trefniadau etholiadol cymunedol

**33.** Yng nghymuned Yr Aberoedd, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 8.

### Llanstadwell — newid enw cymuned

**34.** Enw cymuned bresennol Llanstadwell fydd Llanstadwel yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Aberdaugleddau, Llanstadwel, a Neyland — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**35.** Mae'r rhan o ward y Dwyrain o gymuned Aberdaugleddau a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 15—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llanstadwel;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gorllewin Neyland.

**36.** Mae'r rhannau o ward Gorllewin Neyland o gymuned Neyland a ddangosir wedi eu graddliwio ar Fap 17 a Map 18—

(a) wedi eu trosglwyddo i gymuned Llanstadwel;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gorllewin Neyland.

**37.** Mae'r rhan o gymuned Llanstadwel a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 16—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Neyland;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Dwyrain Neyland;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dwyrain Neyland.

### Llanstadwel, a Neyland — trefniadau etholiadol cymunedol

**38.** Yng nghymuned Llanstadwel, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 6.

**39.** Yng nghymuned Neyland, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Dwyrain Neyland yw 8;

(b) ward Gorllewin Neyland yw 5.

### Spital — newid enw cymuned

**40.** Enw cymuned bresennol Spital fydd Spittal yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Spittal, a Rudbaxton — newid i ffiniau cymunedau a newid canlyniadol i drefniadau etholiadol

**41.** Mae'r rhan o gymuned Spittal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 19—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Rudbaxton;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Rudbaxton a Spittal.

### Rudbaxton — trefniadau etholiadol cymunedol

**42.** Yng nghymuned Rudbaxton, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 8.

### Marloes a San Ffraid — newid enw cymuned

**43.** Enw cymuned bresennol Marloes a San Ffraid fydd Marloes a Sain Ffraid yn Gymraeg ac erys yr enw Marloes and St Brides yn Saesneg.

### Marloes a Sain Ffraid, a Dale — newid i ffiniau cymunedau a newid canlyniadol i drefniadau etholiadol

**44.** Mae'r rhan o gymuned Marloes a Sain Ffraid a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 20—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Dale;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanisan-yn-Rhos.

### Diddymu'r wardiau cymunedol yng nghymuned Maenclochog

**45.** Mae'r wardiau cymunedol presennol a ganlyn o gymuned Maenclochog wedi eu diddymu—

(a) Llan-y-cefn;

(b) Maenclochog.

### Y Mot, a Maenclochog — newid i ffiniau cymunedau a newid canlyniadol i drefniadau etholiadol

**46.** Mae'r rhan o gymuned Y Mot a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 21—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Maenclochog;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Maenclochog.

### Maenclochog — trefniadau etholiadol cymunedol

**47.** Yng nghymuned Maenclochog, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 6.

### Diddymu'r wardiau cymunedol yng nghymuned Cas-wis

**48.** Mae'r wardiau cymunedol presennol a ganlyn o gymuned Cas-wis wedi eu diddymu—

(a) Dwyrain Waltwn;

(b) Cas-wis.

### Diddymu'r wardiau cymunedol yng nghymuned Uzmaston, Boulston a Slebets

**49.** Mae'r wardiau cymunedol presennol a ganlyn o gymuned Uzmaston, Boulston a Slebets wedi eu diddymu—

(a) Uzmaston a Boulston;

(b) Slebets.

### Cas-wis, ac Uzmaston, Boulston a Slebets — newid i ffiniau cymunedau a newid canlyniadol i drefniadau etholiadol

**50.** Mae'r rhan o gymuned Cas-wis a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 22—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Uzmaston, Boulston a Slebets;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Martletwy.

### Cas-wis, ac Uzmaston, Boulston a Slebets — trefniadau etholiadol cymunedol

**51.** Yng nghymuned Cas-wis, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 8.

**52.** Yng nghymuned Uzmaston, Boulston a Slebets, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 6.

### Diddymu'r wardiau cymunedol yng nghymuned Maenorbŷr

**53.** Mae'r wardiau cymunedol presennol a ganlyn o gymuned Maenorbŷr wedi eu diddymu—

(a) Jameston a Lydstep;

(b) Maenorbŷr.

### Penalun, a Maenorbŷr — newid i ffiniau cymunedau a newid canlyniadol i drefniadau etholiadol

**54.** Mae'r rhan o gymuned Penalun a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 23—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Maenorbŷr;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Maenorbŷr a Phenalun.

### Maenorbŷr — trefniadau etholiadol cymunedol

**55.** Yng nghymuned Maenorbŷr, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 8.

### Doc Penfro — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**56.** Mae'r rhan o ward Bush o gymuned Doc Penfro a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 24 a'i rhifo 2—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Y Farchnad o gymuned Doc Penfro;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Doc Penfro: Y Farchnad.

**57.** Mae'r rhan o ward Bush o gymuned Doc Penfro a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 24 a'i rhifo 1—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Bufferland o gymuned Doc Penfro;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Doc Penfro: Bufferland.

### Diddymu'r wardiau cymunedol yng nghymuned Cas-mael

**58.** Mae'r wardiau cymunedol presennol a ganlyn yng nghymuned Cas-mael wedi eu diddymu—

(a) Castellhenri;

(b) Cas-mael.

### Diddymu'r wardiau cymunedol yng nghymuned Scleddau

**59.** Mae'r wardiau cymunedol presennol a ganlyn yng nghymuned Scleddau wedi eu diddymu—

(a) Gogledd Scleddau;

(b) De Scleddau;

(c) Trecŵn.

### Treletert, Cas-mael, Scleddau, Abergwaun, a Chwm Gwaun — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**60.** Mae'r rhan o gymuned Treletert a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 25—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Cas-mael;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Bro Gwaun.

**61.** Mae'r rhan o gymuned Treletert a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 27—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Scleddau;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Bro Gwaun.

**62.** Mae'r rhan o gymuned Cas-mael a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 26—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Scleddau;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Bro Gwaun.

**63.** Mae'r rhan o ward Gogledd-orllewin Abergwaun o gymuned Abergwaun ac Wdig a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 29—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Scleddau;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Bro Gwaun.

**64.** Mae’r rhan o gymuned Scleddau a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 28—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Cwm Gwaun;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Bro Gwaun.

### Cas-mael, Treletert, a Scleddau — trefniadau etholiadol cymunedol

**65.** Yng nghymuned Cas-mael, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 6.

**66.** Yng nghymuned Treletert, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 8.

**67.** Yng nghymuned Scleddau, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 7.

### Penfro — cyfuno wardiau cymunedol

**68.** Mae ward gymunedol newydd Monkton a De St Mary wedi ei chreu yng nghymuned Penfro sydd—

(a) yn cynnwys ardaloedd cyfunedig wardiau presennol Monkton a De St Mary o gymuned Penfro a ddangosir wedi eu graddliwio ar Fap 30;

(b) yn ffurfio rhan o gymuned Penfro;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Penfro: Monkton a De St Mary.

### Cosheston, Hundleton, a Penfro — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**69.** Mae’r rhan o gymuned Cosheston a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 31—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Penfro;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Gogledd St Mary;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Penfro: Gogledd St Mary.

**70.** Mae’r rhan o ward Monkton a De St Mary o gymuned Penfro a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 32—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Hundleton;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Hundleton.

### Cosheston, Hundleton, a Penfro — trefniadau etholiadol cymunedol

**71.** Yng nghymuned Cosheston, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 6.

**72.** Yng nghymuned Hundleton, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 6.

**73.** Yng nghymuned Penfro, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol dros—

(a) ward Monkton a De St Mary yw 7;

(b) ward Gogledd St Mary yw 4;

(c) ward St Michael yw 4.

### Diddymu’r wardiau cymunedol yng nghymuned East Williamston

**74.** Mae’r wardiau cymunedol presennol a ganlyn yng nghymuned East Williamston wedi eu diddymu—

(a) East Williamston;

(b) Pentlepoir.

**Caeriw, Jeffreyston, St Florence, ac East Williamston — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol**

**75.** Mae’r rhan o gymuned Caeriw a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 35—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Jeffreyston;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Caeriw a Jeffreyston.

**76.** Mae’r rhan o gymuned Caeriw a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 33 a’i rhifo 1—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned East Williamston;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol East Williamston.

**77.** Mae’r rhan o gymuned St Florence a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 33 a’i rhifo 2—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned East Williamston;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol East Williamston.

**78.** Mae’r rhan o gymuned St Florence a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 34—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Caeriw;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Caeriw a Jeffreyston.

**East Williamston, St Florence, a Caeriw— trefniadau etholiadol cymunedol**

**79.** Yng nghymuned East Williamston, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 11.

**80.** Yng nghymuned St Florence, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 6.

**81.** Yng nghymuned Caeriw, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 10.

**Tyddewi, a Solfach — newid i ffiniau cymunedau a newid canlyniadol i drefniadau etholiadol**

**82.** Mae’r rhan o gymuned Tyddewi a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 36—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Solfach;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Solfach.

**Tyddewi, a Solfach — trefniadau etholiadol cymunedol**

**83.** Yng nghymuned Tyddewi, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 11.

**84.** Yng nghymuned Solfach, nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol yw 6.

**Arberth, a Llanddewi Felffre — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol**

**85.** Mae’r rhannau o ward Arberth Wledig o gymuned Arberth a ddangosir wedi eu graddliwio ar Fap 37, Map 38, Map 39 a Map 40—

(a) wedi eu trosglwyddo i ward Arberth Drefol o gymuned Arberth;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Arberth Drefol.

**86.** Mae’r rhan o gymuned Llanddewi Felffre a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 41—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Arberth;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Arberth Wledig;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Arberth Wledig.

### Arberth — trefniadau etholiadol ward gymunedol

**87.** Yng nghymuned Arberth, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Arberth Wledig yw 3;

(b) ward Arberth Drefol yw 10.

### Llanbedr Efelffre — newid enw cymuned

**88.** Enw cymuned bresennol Llanbedr Efelffre fydd Llanbedr Felffre yn Gymraeg ac erys yr enw Lampeter Velfrey yn Saesneg.

### Tredml — newid enw cymuned

**89.** Enw cymuned bresennol Tredml fydd Tredeml yn Gymraeg ac erys yr enw Templeton yn Saesneg.

### Diddymu'r wardiau cymunedol yng nghymuned Llanbedr Felffre

**90.** Mae'r wardiau cymunedol presennol a ganlyn yng nghymuned Llanbedr Felffre wedi eu diddymu—

(a) Llanbedr Felffre;

(b) Yr Eglwys Lwyd.

### Llanbedr Felffre, a Tredeml — newid i ffiniau cymunedau a newid canlyniadol i drefniadau etholiadol

**91.** Mae'r rhan o gymuned Llanbedr Felffre a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 42—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Tredeml;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Arberth Wledig.

### Llanbedr Felffre, a Tredeml — trefniadau etholiadol cymunedol

**92.** Yng nghymuned Llanbedr Felffre, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 8.

**93.** Yng nghymuned Tredeml, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 8.

### Diddymu'r wardiau cymunedol yng nghymuned Amroth

**94.** Mae'r wardiau cymunedol presennol a ganlyn yng nghymuned Amroth wedi eu diddymu—

(a) Amroth;

(b) Cronwern.

### Diddymu'r wardiau cymunedol yng nghymuned Cilgeti/Begeli

**95.** Mae'r wardiau cymunedol presennol a ganlyn yng nghymuned Cilgeti/Begeli wedi eu diddymu—

(a) Begeli;

(b) Cilgeti.

### Amroth, Cilgeti/Begeli, Saundersfoot, Llanfair Dinbych-y-pysgod, a Dinbych-y-pysgod — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**96.** Mae'r rhannau o gymuned Amroth a ddangosir wedi eu graddliwio ar Fap 43 a'u rhifo 1 a 2—

(a) wedi eu trosglwyddo i gymuned Cilgeti/Begeli;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Cilgeti a Begeli.

**97.** Mae'r rhannau o gymuned Cilgeti/Begeli a ddangosir wedi eu graddliwio ar Fap 43 a'u rhifo 3 ac ar Fap 45—

(a) wedi eu trosglwyddo i gymuned Amroth;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Amroth a Gogledd Saundersfoot.

**98.** Mae'r rhan o ward Gogledd Saundersfoot o gymuned Saundersfoot a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 44—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Amroth;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Amroth a Gogledd Saundersfoot.

**99.** Mae'r rhan o gymuned Cilgeti/Begeli a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 46—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Saundersfoot;

(b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Gogledd Saundersfoot;

(c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Amroth a Gogledd Saundersfoot.

**100.** Mae'r rhan o ward De Saundersfoot o gymuned Saundersfoot a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 47—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol St Florence a Llanfair Dinbych-y-pysgod.

**101.** Mae'r rhan o ward Gogledd Dinbych-y-pysgod o gymuned Dinbych-y-pysgod a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 48—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol St Florence a Llanfair Dinbych-y-pysgod.

### Amroth, a Llanfair Dinbych-y-pysgod — trefniadau etholiadol cymunedol

**102.** Yng nghymuned Amroth, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 9.

**103.** Yng nghymuned Llanfair Dinbych-y-pysgod, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 6.

### Diddymu'r wardiau cymunedol yng nghymuned Nanhyfer

**104.** Mae'r wardiau cymunedol presennol a ganlyn yng nghymuned Nanhyfer wedi eu diddymu—

(a) Trewyddel;

(b) Nanhyfer.

### Trefdraeth, Dinas, a Nanhyfer — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**105.** Mae'r rhan o gymuned Trefdraeth a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 49—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Dinas;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Trefdraeth a Dinas.

**106.** Mae'r rhan o gymuned Trefdraeth a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 50—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Nanhyfer;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandudoch.

### Dinas, Trefdraeth, a Nanhyfer — trefniadau etholiadol cymunedol

**107.** Yng nghymuned Dinas, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 6.

**108.** Yng nghymuned Trefdraeth, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 8.

**109.** Yng nghymuned Nanhyfer, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 6.

### Maenordeifi — newid enw cymuned

**110.** Enw cymuned bresennol Maenordeifi, a elwid Manordeifi yn Saesneg, fydd Maenordeifi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Crymych, Boncath, Cilgerran, Maenordeifi, Clydau, ac Eglwyswrw — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**111.** Mae'r rhan o gymuned Crymych a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 53—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Boncath;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Boncath a Chlydau.

**112.** Mae'r rhan o gymuned Boncath a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 57—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Cilgerran;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Cilgerran ac Eglwyswrw.

**113.** Mae'r rhan o gymuned Maenordeifi a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 56—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Cilgerran;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Cilgerran ac Eglwyswrw.

**114.** Mae'r rhan o gymuned Boncath a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 55—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Crymych;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Crymych a Mynachlog-ddu.

**115.** Mae'r rhan o gymuned Clydau a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 54—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Crymych;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Crymych a Mynachlog-ddu.

**116.** Mae'r rhan o gymuned Cilgerran a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 52—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Eglwyswrw;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Cilgerran ac Eglwyswrw.

**117.** Mae'r rhan o gymuned Crymych a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 51—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Eglwyswrw;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Cilgerran ac Eglwyswrw.

**Boncath, Cilgerran, Clydau, Crymych, ac Eglwyswrw — trefniadau etholiadol cymunedol**

**118.** Yng nghymuned Boncath, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 6.

**119.** Yng nghymuned Cilgerran, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 10.

**120.** Yng nghymuned Clydau, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 6.

**121.** Yng nghymuned Crymych, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 11.

**122.** Yng nghymuned Eglwyswrw, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 6.

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru

11 Mawrth 2026

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn"), a roddodd adroddiad ym mis Ionawr 2025 ar ei adolygiad o drefniadau cymunedol yn Sir Benfro. Argymhellodd adroddiad y Comisiwn newidiadau i ffiniau presennol cymunedau yn ardal Sir Benfro a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol. Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion y Comisiwn heb addasiadau ond heb unrhyw gamau wedi eu cymryd ar argymhellion amrywiol. Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud rhai newidiadau atodol mewn perthynas ag enwau cymunedau.

Effaith y Gorchymyn hwn yw gwneud newidiadau i nifer o ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn diddymu nifer o wardiau cymunedol.

Mae Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976, y cyfeirir atynt yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn, yn cynnwys darpariaethau deilliadol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol a darpariaethau atodol ynghylch effaith gorchmynion megis y gorchymyn hwn a gweithredu'r gorchmynion hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Mae printiau o'r mapiau a labelwyd "1" i "57" y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi eu hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Etholiadau), a chyda Chyngor Sir Penfro. Mae'r printiau sydd wedi eu hadneuo gyda Chyngor Sir Penfro yn agored i gael eu harchwilio gan unrhyw un y bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn effeithio arnynt.